


# Gwrthwynebwyr cydwybodol

## Pwy oedden nhw?



Pan ddechreuodd y Rhyfel Byd Cyntaf ym 1914, gadawodd miliynau o ddynion eu cartrefi i ymladd gan gredu mai hyn oedd eu dyletswydd. Fodd bynnag, pan barhaodd y rhyfel, roedd angen rhagor o ddynion i ymladd a dechreuodd y niferoedd oedd yn gwirfoddoli ostwng. Ym 1916, cyflwynwyd gorfodaeth filwrol (cael eich gorfodi i ymuno â'r gwasanaeth milwrol) i bob dyn 18-41 oed. Ychwanegwyd cymal cydwybod ar gyfer y rhai hynny oedd â 'gwrthwynebiad cydwybodol tuag at ymgymryd â gwasanaeth ymladdol'. Anfonwyd y rhai hynny yr oedd eu credoau'n golygu nad oedden nhw'n gallu ymladd i wynebu tribiwnlys i ddadlau eu hachos. Gwrthwynebodd dynion am amrywiaeth o wahanol resymau.

### Gwrthwynebydd crefyddol.

Dynion oedd yn gwrthwynebu'r rhyfel am ei fod yn erbyn y credoau yn eu crefydd. Hwn oedd y grŵp mwyaf o wrthwynebwyr ac roedd yn cynnwys Crynwyr a Thystion Jehofa yn bennaf.

### Absoliwtyddion

Roedd absoliwtyddion yn gwrthwynebu'r gyfraith gorfodaeth filwrol a'r rhyfel hefyd. Roedden nhw'n credu y dylen nhw gadw eu rhyddid sifil a rhyddid yr unigolyn.

### Y Gymdeithas Amgen

Nid oedd y gymdeithas amgen yn cytuno â'r rhyfel; fodd bynnag, roedden nhw'n fodlon ymgymryd â gwaith sifilaidd.

### Heddychwyr a Gwrthwynebwyr Gwleidyddol

Roedd y gwrthwynebwyr cydwybodol heddychol yn credu bod pob rhyfel yn anghywir. Roedden nhw'n credu bod pob math o drais yn anghywir ac mai trafod oedd y ffordd orau o ddatrys dadleuon.

### Anymladdwyr

Roedd anymladdwyr yn barod i gael eu gorfodi i ymuno â'r fyddin ond nid oedden nhw'n fodlon cario arfau na lladd. Fel arfer, rhoddwyd swyddi eraill iddyn nhw fel cludwyr elor welyau neu feddygon.

Cadw
Llywodraeth Cymru Welsh Government
Ymddiriedolaeth Bannau Brycheiniog Brecon Beacons Trust
ymddiriedolaeth archaeolegol DYFED archaeological trust
Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog Brecon Beacons National Park
CYMRU DROS HEDDWCH WALES FOR PEACE